***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 528

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2017

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2017 a deuant i rym ar 5 Mai 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygiadau mewn perthynas â ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau tybiedig**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 10(7) mewnosoder—

> "(7A) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (7) at yr awdurdod perthnasol ar yr un pryd ag yr anfonir yr hysbysiad at yr apelydd.
>
> (7B) Rhaid i'r awdurdod perthnasol hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—
>
> (a) pan fydd yr apelydd wedi talu'r ffi yn unol â pharagraffau (6) a (7); neu
>
> (b) os nad yw'r apelydd wedi talu'r ffi o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (7)."

**Darpariaethau trosiannol ac arbed**

**3.** Nid yw'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 2 yn gymwys i gais am ganiatâd cynllunio y tybir iddo gael ei wneud, yn rhinwedd adran 177(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (rhoi neu addasu caniatâd cynllunio yn dilyn apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi)(**2**), mewn cysylltiad â hysbysiad gorfodi a ddyroddir cyn y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

*Jane Hutt*
Un o Weinidogion Cymru

5 Ebrill 2017

(**1**) O.S. 2015/1522 (Cy. 179), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Diwygiwyd adran 177(5) gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) a pharagraffau 8 a 24(3) o Atodlen 7 iddi, gan adran 123(1) a (6) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), a chan adran 44(1) a (3) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.